EISTEDDFOD

<u>Polisi Ffotograffiaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru</u>

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn croesawu sylw i'n gŵyl unigryw gan y wasg a'r cyfryngau, ac rydym yn gwneud ein gorau i gytuno i geisiadau lle bo'n bosibl. Ond, mae gan yr Eisteddfod bolisi mynediad i'r wasg a'r cyfryngau, ac mae'r polisi hwn yn cynnwys ffotograffiaeth. Os ydych yn dymuno tynnu lluniau ar gyfer unrhyw beth ar wahân i ddefnydd personol a phreifat, mae'n rhaid cael caniatâd.

Nid ydym yn caniatáu unrhyw werthu na gweithgaredd masnachol ar y Maes heb gytundeb yr Eisteddfod ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys ffotograffiaeth a gwasanaethau ffotograffig. Gall yr Eisteddfod yn codi ffi am unrhyw weithgaredd masnachol (gan gynnwys ffilmio, ffotograffiaeth a recordio) ar y Maes os byddwn yn cytuno bod modd cynnal y gweithgaredd.

Gallwn wrthod mynediad neu ofyn i berson adael y safle os oes ganddyn nhw offer sy'n gallu tynnu lluniau proffesiynol, gwneud ffilmiau, recordiadau sain neu ddarlledu (neu ffrydio); neu os ydyn nhw'n tynnu unrhyw luniau, gwneud ffilm, recordiad sain neu ddarlledu unrhyw beth o weithgaredd sy'n cael ei gynnal o fewn Maes yr Eisteddfod er budd masnachol.

Gall person gael mynediad i'r Maes gydag offer ffotograffiaeth sy'n rhan integredig o offer cyfathrebu electronig ar gyfer defnydd personol (e.e. ffôn symudol) a / neu gamera personol, ond gellir gofyn i'r person adael y safle os ydynt yn ceisio defnyddio'r offer yma er budd masnachol.

Pwyntiau pwysig eraill i'w hystyried:

- Mae'n rhaid cael yswiriant cyhoeddus a rhwymedigaeth cyflogwr llawn. Bydd rhaid darparu copi o dystysgrif yswiriant ymlaen llaw
- Bydd angen caniatâd gan artistiaid os ydych yn dymuno tynnu lluniau o berfformiadau
- Mae hedfan neu ffilmio gyda cherbydau awyr di-griw (UAVs neu dronau) wedi'i wahardd ar Faes yr Eisteddfod cyn, yn ystod ac ar ôl yr ŵyl – ac wedi'i wahardd drwy gyfraith gwlad
- Mae'r Maes yn safle gwaith ac mae diogelwch ein hymwelwyr, criwiau a staff yn hollbwysig i ni
- Ni ellir defnyddio lluniau sydd wedi'u tynnu yn yr Eisteddfod mewn unrhyw raglen noddedig na hysbysebion heb gytundeb ymlaen llaw
- Mae'n rhaid parchu preifatrwydd pawb yn yr Eisteddfod

Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd yn berthnasol i griwiau ffilmio a ffotograffwyr perfformwyr eu hunain.

Rydyn ni'n derbyn nifer fawr o ymholiadau i dynnu lluniau yn yr Eisteddfod. Yn syml, os ydych chi'n ffotograffydd proffesiynol, neu os ydych chi am dynnu lluniau er budd masnachol, mae'n rhaid cael caniatâd – ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch gyda Lliwen Williams, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu'r Eisteddfod, lliwen@eisteddfod.cymru.